Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher, Medi 9, 2009 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 6.45pm

Presennol: Y Maer y Cyng Charlotte Leadbeater, y Cyng Chris Parish, y Cyng Colin Jenkins, Y Cyng Roy Davies, y Cyng Julia Jones, y Cyng Edward Thomas, y Cyng Fran Murphy
Clerc y Dref
Des Davies (y Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau Y Cyng Dawn Wallace, y Cyng Richard Wallace.

Cyn y cyfarfod, anerchodd Mrs Gill Wright o HOWLTA y Pwyllgor ynghylch materion yn ymwneud â gorsaf drenau Llandeilo. Roedd y Cyngor yn ymchwilio ffyrdd o wella'r ardaloedd yn union o amgylch yr orsaf i fod yn fwy deniadol i ddefnyddwyr ac ymwelwyr. Rhoddwyd gwybod i Mrs Wright am bryderon y Cyngor am gyflwr presennol yr orsaf, a byddai hi'n ystyried partneriaethau posib a allai helpu'r Cyngor.

Cof 131 / Medi / 09 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/ 21430 Adeiladu tŷ gwydr cymunedol ar dir cyfagos i Rif 5 Maes Elfryn.
Sylw : Dim gwrthwynebiad

E/21485 Estyniad i adeiladau presennol yn *Llandeilo Builders Supplies*, Heol yr Orsaf.
Sylw : Dim gwrthwynebiad

E/21479 Newid defnydd – llawr gwaelod A2 a A1, llawr cyntaf C3, defnydd arfaethedig – llawr gwaelod A3 a A1, llawr cyntaf D1 yn 101 Heol Rhosmaen.
Sylw : Dim gwrthwynebiad heblaw cynllunwyr i sicrhau bod pob arwydd yn adlewyrchu'r ffaith bod yr adeilad mewn ardal gadwraeth.

E/21666 Garej newydd yn 28, Lôn Dinefwr.
Sylw : Dim gwrthwynebiad os nad yw'r bolard ar y pen uchaf yn cael ei symud.

Cof 132 / Medi/ 09 Penderfyniadau Ceisiadau Cynllunio

E/21384 Amrywiad ar amod Rhif 2 o E/10697 (newid o lechen i deils clai lliw llechen) ym mharc carafannau teithiol Gerddi Dinefwr
CANIATAWYD

Cof 133 / Medi/ 09 Ceisiadau Cynllunio wedi eu tynnu'n ôl.

E/ 21286 Adeiladu annedd newydd sengl ar dir cyfagos i 5, Rhes Brynawel.

Cof 134/ Medi /09 Materion Cludiant a Phriffyrdd

Trafodwyd llythyr oddi wrth John McEvoy yn ymateb i ohebiaeth a anfonwyd ato gan breswylwyr yn gwrthwynebu bod preswylwyr yn parcio ar Heol Newydd. Gan fod Mr McEvoy ar fin cwrdd â chynrychiolwyr o'r Cyngor ynglŷn â'r mater, penderfynwyd nodi'r llythyr nes bod y cyfarfod hwn wedi ei gynnal.

Cof 135 / Medi / 09 Llwybrau Troed.

1. Llythyr a dderbyniwyd oddi wrth D. Pearce swyddog CSC yn gofyn i Gynghorau beidio â defnyddio contractwyr preifat mwyach i gynnal a chadw llwybrau troed gan y dylent ddefnyddio staff CSC i wneud y gwaith. Dywedodd y Clerc ei fod wedi rhoi gwybod i Mr Pearce bod y Cyngor eisoes wedi contractio Mr Gwyn i wneud y gwaith cynnal a chadw. Roedd Mr Gwyn eisoes wedi gwneud dau doriad. Argymhellwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu at Mr Eirian James CSC i ddweud y byddai'r Cyngor yn parhau i ddefnyddio Mr Gwyn eleni.
2. E-bost gan Caroline Ferguson, swyddog llwybrau tramwy CSC, yn dweud y byddai cais y cyngor i gael arwyddion clir ar bob llwybr troed yn cael ei ystyried yn eu cyfarfod nesaf nhw.

Cof 136 / Medi/ 09 Adroddiad y Swyddog Technegol

Rhoddodd Mr Davies adroddiad cynhwysfawr ar yr holl waith cynnal a chadw sy'n digwydd yn Neuadd y Sir. Cynigwyd gan y Cyng Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater y dylid derbyn argymhellion y Swyddog Technegol ar gyfer atgyweiriadau sydd eu hangen yn Neuadd y Sir. Roedd pawb o blaid.
Dywedodd Mr Davies y byddai Prospect Construction yn rhoi coeden Nadolig i'r Dref. Byddai'r Cyng Colin Jenkins yn dethol coeden addas.
Cynigwyd gan y Cyng Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng Julia Jones y dylid prynu mainc newydd a'i gosod wrth fynediad Parc Penlan er anrhydedd i'r diweddar Arglwydd Dinefwr. Roedd pawb o blaid.

Cof 137 / Medi / 09 Prosiect Drysau Agored

Rhoddodd y Cyng Roy Davies adroddiad ar y trefniadau ar gyfer y Diwrnod Agored i ymweld â chapeli Llandeilo a drefnwyd ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Ddinesig Llandeilo ar 26 Medi 2009. Byddai darlithoedd yn y bore yn Neuadd y Sir rhwng 11 a 12 a thaith dywysedig yn ystod y prynhawn rhwng 2 a 5. Cytunwyd i ddyrannu swm o £20 i ddarparu lluniaeth i staff gwadd o Aberystwyth.

Cof 138 / Medi / 09 Gohebiaeth

1. Tywi Afon yr Oesoedd. Dywedodd y Cyng Roy Davies fod y cynlluniau prosiect a gyflwynwyd ar gyfer yr Ardd yn datblygu. Roedd Mr David Rice wedi cyflwyno cais am grant i adran cadwraeth CSC ar gyfer cael gwared â'r coed o'r rhandir. Roedd pryder nad oedd tirfeddianwyr preifat o amgylch y bont wedi cynnal a chadw'r glannau fel y cytunwyd. Byddai'n rhaid cysylltu â nhw eto.
2. Cyfarfod Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol – Abertawe 24 Tachwedd. Nodwyd.
3. Rhaglen Grant Addasu Gwledig CSC. Nodwyd.
4. Gwobrau Cadw Cymru'n Daclus. Nodwyd.

5. Briff cynllunio atodol CSC. Nodwyd.
6. Mario Cresci CSC parth llwybrau troed. Nodwyd.
7. CSC parth gatiau Parc Penlan. Argymhellwyd gan y pwyllgor Cynllunio y dylai'r pwyllgor Cyllid ystyried hyn.

Cof 139/ Medi/ 09 Nid oedd unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd oherwydd amgylchiadau arbennig yn ôl y Cadeirydd yn haeddu sylw brys yn unol ag adran 100B(4)(B) Deddf Llywodraeth Leol 1972

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15pm.